# Atodiad 3 – Cydymffurfiaeth Archwilio Allanol (Mai 2025)

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sy’n weddill a nodwyd i gefnogi argymhellion archwilio rheoleiddiol allanol, gan nodi’r sefyllfa bresennol ym mis Mai 2025.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English. Rydym hefyd yn hapus i ddarparu’r ddogfen hon mewn print bras, fersiwn sain a braille, cysylltwch â’r Tîm Perfformiad a Gwella (mae’r manylion cyswllt ar y dudalen nesaf).**



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

## Mae arnom eisiau clywed eich barn!

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog Conwy ac yn credu ei bod yn hanfodol clywed llais pawb a'u cydnabod. Hoffem glywed gennych chi am yr hyn sy'n effeithio arnoch. A yw ein nodau hirdymor yn addas ar gyfer eich cymuned, ac a ydym yn gwneud y pethau iawn? I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich barn am unrhyw beth yn ein Cynllun Corfforaethol, cysylltwch â ni.

**Dros e-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Iaith Arwyddion:** Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni'n defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion drwy'r gwasanaeth InterpretersLive! a ddarperir gan Sign Solutions – ewch i www.conwy.gov.uk/cy/Council/Contact-Us/Sign.aspx

**Drwy'r post:** Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad
Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn y naill iaith na'r llall.

## Pobl Ifanc

Pobl ifanc yw ein dyfodol a hoffem glywed eich barn chi. Mae'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc eisiau gwrando a rhoi cyfle i chi leisio'ch barn. Mae Cyngor yr Ifanc Conwy yn rhoi llais a dewis i chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i dudalen Facebook Cyngor yr Ifanc neu i wefan y Gwasanaeth Ieuenctid, neu cysylltwch â ni:

**Dros e-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh. Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Facebook ac Instagram:** @GIConwyYS

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i'n tudalen we 'Dweud eich dweud'

Cofrestrwch i greu cyfrif ar Fy Nghonwy er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf sydd fwyaf perthnasol i chi, yn ogystal â llunio a rheoli eich ceisiadau gwasanaeth ar-lein.

## Cynnwys

Mae arnom eisiau clywed eich barn! .......... 2

Pobl Ifanc .......... 2

I gael y wybodaeth ddiweddaraf: .......... 3

Cydymffurfiaeth Archwilio .......... 6

1. Defnydd Data Llywodraeth Leol (Adroddiad Lleol) .......... 6

2. Trosglwyddo Asedau Cymunedol (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 6

3. Archwiliad o Wasanaethau Hamdden (Adroddiad Lleol) .......... 7

4. Lles Caffael yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 9

5. Gadael Neb ar Ôl - Adferiad o blaid pobl hŷn (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 10

6. Asesiadau Risg a Sicrwydd (Adroddiad Lleol) .......... 10

7. Parodrwydd Sector Cyhoeddus ar gyfer Sero Net erbyn 2030 (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 11

8. Amser am Newid - Tlodi yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 11

9. Camu Ymlaen (Adroddiad Lleol) .......... 11

10. Craciau yn y Sylfeini – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 13

11. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Mwy nag ymarfer blwch ticio (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 14

12. Adolygu Digartrefedd (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 15

13. Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad (Adroddiad Lleol) .......... 16

14. Strategaeth Ddigidol (Adroddiad Lleol) .......... 18

15. Datblygu Cynaliadwy – Gwneud y Defnydd Gorau o Dir Llwyd ac Adeiladau Gwag (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 20

16. Menter Gymdeithasol (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 22

17. Gyda’n Gilydd Gallwn - Gwytnwch a Hunan-ddibyniaeth Cymunedau (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 23

18. Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (Adroddiad Lleol) .......... 23

19. Cynaliadwyedd Ariannol (Adroddiad Lleol) .......... 25

20. Llywodraethu Awdurdodau Parc Cenedlaethol (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 26

21. Gwasanaethau Addysg (Adroddiad Lleol) .......... 26

22. Comisiynu Lleoliadau Cartref Gofal Pobl Hŷn (Adroddiad Lleol / Rhanbarthol) .......... 27

23. Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (Adroddiad Lleol) .......... 28

24. Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant (Adroddiad Cenedlaethol) .......... 30

25. Gofal Brys ac mewn Argyfwng - Llif allan o’r ysbyty (Adroddiad Rhanbarthol) .......... 33

## Cydymffurfiaeth Archwilio

Am y tro cyntaf rydym yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cydymffurfiaeth archwilio fel rhan o ddogfennau ein Hunanasesiad, sy'n sicrhau bod yr holl wybodaeth perfformiad perthnasol yn cael ei hystyried mewn un man. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf o ran ein cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd i gefnogi gweithgarwch rheoleiddio sydd wedi'i gyflawni.

### 1. Defnydd Data Llywodraeth Leol (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Llunio archwiliad data i nodi pwy sydd yn meddu ar ba ddata a pham.<br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2019<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Medi 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Gwasanaethau i lenwi taenlen gorfforaethol yn flynyddol i nodi'r data sydd gennym fel sefydliad. Roedd y canfyddiadau wedi'u nodi yn yr Archwiliad Diogelu Data (sgôr foddhaol). Cynhaliwyd archwiliad dilynol ym mis Hydref 2024 a chael sgôr sicrwydd uchel. Adroddwyd hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd fel rhan o Adroddiad Perfformiad Archwilio Mewnol.<br>Argymell cymeradwyo. |

### 2. Trosglwyddo Asedau Cymunedol (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cynhyrchu polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol a sicrhau bod y polisi'n ymdrin ag ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cefnogaeth ar ôl trosglwyddo, cyfeirio i gael mynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu am yr hyn sy'n gweithio'n dda.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2019<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Ionawr 2026 | Oren<br>O fewn goddefiant | Ni fydd polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cael ei gynhyrchu; ond, bydd y Cynllun Rheoli Asedau newydd yn cyfeirio at Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn dibynnu ar ganllawiau newydd LIC. Cytunodd y Cabinet ar y terfynau amser ar gyfer cyhoeddi Cynllun Rheoli Asedau ym mis Mai 2025. Disgwylir iddo gael ei adrodd trwy'r broses ddemocrataidd ym mis Ionawr 2026.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Ebrill 2025 i fis Ionawr 2026. |

## 3. Archwiliad o Wasanaethau Hamdden (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Adolygu'r arolygon o gyflwr adeiladau a gynhaliwyd yn ddiweddar a nodi rhaglen welliannau wedi'i blaenoriaethu ar gyfer ein cyfleusterau hamdden adeiledig, a fydd yn cyd-fynd â'n Strategaeth ar gyfer y gwasanaethau hamdden. **Dyddiad Dechrau:** Chwefror 2020 **Dyddiad Disgwyliedig:** Hydref 2025 | Gwyrdd Ar y trywydd iawn | Drafftio strategaeth mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Strategol. |
| Ail-edrych ar y strategaethau cyfleusterau gyda Sir Ddinbych a Gwynedd a chadarnhau p'un a oes yna gyfleoedd i gydweddu darpariaeth ar draws y ffiniau. **Dyddiad Dechrau:** Chwefror 2020 **Dyddiad Disgwyliedig:** Hydref 2025 | Gwyrdd Ar y trywydd iawn | Drafftio strategaeth mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Strategol. Parhau i weithio gyda CLOW ac Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru drwy Actif Gogledd Cymru i adolygu'r dewisiadau ar gyfer rhagor o gydweithio. Mae Conwy hefyd yn cael ei gynrychioli ar Fwrdd Rhaglen Pwysau Iach Cymru Iach Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n nodi llwybrau a thasgau allweddol er mwyn cynorthwyo i leihau gordewdra a chlefyd siwgr yng Nghymru. |
| Ymgymryd ag adolygiad o'r data i benderfynu a oes modd nodi pwy sydd ddim yn defnyddio ein cyfleusterau hamdden.  Gweithio gyda phartneriaid ledled y rhanbarth i sicrhau eglurder o ran safle priodol yn y farchnad. **Dyddiad Dechrau:** Chwefror 2020 **Dyddiad Disgwyliedig:** Hydref 2025 | Gwyrdd Ar y trywydd iawn | Wedi cynnal arolwg Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ym mis Chwefror 2025. Roedd yr ymatebion yn cynnwys defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth a'r rhesymau pam nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaethau. Mae'r data'n barod yn awr i'w ddefnyddio i ddatblygu'r dewisiadau ar gyfer cynyddu cyfranogiad. Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Ebrill 2025 i fis Hydref 2025. |

| | | |
|---|---|---|
| Dylai'r Cyngor gwblhau ei waith i ddatblygu cynllun sy'n darparu gwasanaeth hamdden sy'n ariannol hyfyw.<br><br>**Dyddiad Dechrau:** Chwefror 2020<br><br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Hydref 2025 | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Drafftio strategaeth mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Strategol. |

### 4. Caffael Llesiant yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Defnyddio mecanwaith neu adnodd LIC i fonitro ac adrodd ar weithgareddau, mewn ymarferion caffael unigol ac yn gyffredinol, sut mae eu gwariant ar gaffael yn bodloni'r nodau a'r amcanion o ran lles.<br><br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2021<br><br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir diweddariad yn ystod yr Haf 2025.<br><br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Rhagfyr 2024 i fis Rhagfyr 2025. |
| Nodi'n glir sut yr ydym wedi ystyried effaith ein penderfyniadau o ran caffael ar garbon ac yn achos cytundebau adeiladu neu isadeiledd fe ddylent ofyn yn glir ar i gynlluniau fod yn rhai di-garbon net dros gyfnod eu hoes.<br><br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2021<br><br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn gweithio gyda thîm prosiect Cadwyn Gyflenwi Allyriadau Sero Net. Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu i hysbysu prosiectau, contractau a phrosesau caffael yn y dyfodol, y math o gwestiynau i'w defnyddio a'r atebion y gellir eu disgwyl. Mae hyn yn parhau ac mae'r cynnydd yn araf wrth i awdurdodau aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir diweddariad yn ystod yr Haf.<br><br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Rhagfyr 2024 i fis Rhagfyr 2025. |

5. Gadael Neb ar Ôl - Adferiad o blaid pobl hŷn (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Ymgymryd ag archwiliadau lefel cymuned o bobl hŷn diamddiffyn sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn ystod y pandemig, a darparu dyfeisiau hawdd eu defnyddio gyda mynediad at y rhyngrwyd.<br>**Dyddiad dechrau:** Chwefror 2022<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Ebrill 2026<br>**Dyddiad gorffen:** Ebrill 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn gwneud cais am "Statws Cyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd" ar hyn o bryd, sy'n gofyn i ni ymgynghori â grwpiau diamddiffyn gan gynnwys y rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol. Mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu gan ymateb i Adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn ar brofiadau Pobl Hŷn o eithrio digidol yng Nghymru. Mae elfen gyntaf yr argymhelliad yn cael sylw fel rhan o'r uchod.<br>Oherwydd diffyg adnoddau, nid oes modd i ni gyflawni ail elfen yr argymhelliad yn gyfan gwbl. Ond rydym wedi darparu dyfeisiau hawdd eu defnyddio i breswylwyr sy'n gaeth i'w cartrefi i gael mynediad at lyfrau llafar, sydd wedi lleihau arwahanrwydd i'r cyfryngau ac wedi cael effaith gadarnhaol.<br>Argymell cymeradwyo. |

6. Asesiadau Risg a Sicrwydd (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Er mwyn cyflawni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor brisio ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn gyson â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae CLILC a Phartneriaethau Lleol wedi cynhyrchu Cynlluniwr Sefyllfaoedd Sero Net, wedi'i bersonoli ar gyfer pob awdurdod lleol. Gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan y Cyngor bydd y cynlluniwr sefyllfaoedd yn tynnu sylw at gostau cyfalaf ac arbedion allyriadau posibl sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio portffolio adeiladau'r Cyngor ar draws ystod o sefyllfaoedd tuag at sero net. Mae'r cynlluniwr yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2025.<br>Yn amodol ar gyfyngiadau cyllid, bydd angen i'r Cyngor flaenoriaethu ar draws ei holl uchelgeisiau, felly pan fydd unrhyw gostau ychwanegol yn hysbys, bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau o ran ei fforddiadwyedd. |

## 7. Parodrwydd Sector Cyhoeddus ar gyfer Sero Net erbyn 2030 (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithredu modiwlau Hyfforddiant Llythrennedd Carbon ar gyfer yr holl staff, Uwch Arweinwyr ac Aelodau Etholedig.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mawrth 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyflwynwyd modiwl e-ddysgu sero net a'i gymeradwyo gan Fwrdd Rhaglen Her yr Hinsawdd ym mis Ebrill 2024. Nodwyd cost ychwanegol o £7,000 gan y dylunwyr i gynhyrchu'r modiwl terfynol, felly rydym yn archwilio gwasanaethau mewnol y Cyngor i gynhyrchu fersiwn derfynol heb gostau. Rydym yn parhau i ystyried yr opsiynau gyda swyddogion o'r Gwasanaeth TG.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mawrth 2025 i fis Mawrth 2026. |

## 8. Amser am Newid - Tlodi yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Adolygu ein hasesiadau o effaith integredig neu gyfwerth.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mawrth 2027 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Cyngor yn ystyried adolygu ei ymagwedd ar gyfer asesiadau o effaith integredig, gan symleiddio a digideiddio'r broses. Ond, fodd bynnag, mae'n ddarn sylweddol o waith ac mae'r capasiti i'w gyflawni'n gyfyngedig ar hyn o bryd. Bydd penodi Rheolwr newydd Conwy Gynhwysol yn gymorth gyda'r elfen cydraddoldeb. |

## 9. Camu Ymlaen (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Arddangos bod egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd penderfyniadau yn y dyfodol ar gyfer ein hasedau a'n gweithlu.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Ionawr 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | **Asedau**<br>Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Asedau - y dyddiad cwblhau disgwyliedig yw mis Ionawr 2026.<br>**Gweithlu**<br>Mae'r Strategaeth Pobl wedi'i chyhoeddi. Mae'r elfen hon o'r argymhelliad wedi'i chwblhau.<br>Argymell cymeradwyo. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Datblygu ymhellach y defnydd o feincnodi i lywio gwaith cynllunio, pennu cyllidebau ac i fesur llwyddiant mwy hirdymor mentrau asedau a'r gweithlu.<br><br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br><br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Hydref 2025 | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | **Asedau**<br><br>Rydym yn gweithio ar hyn fel tîm i asesu pa fesurau meincnodi fyddai'n ddefnyddiol i ni.  Her allweddol yw bod strwythur pob Cyngor yn amrywio ac felly nid ydym yn cymharu'n union bob tro.  Mae meincnodi anffurfiol yn gweithio'n dda i ni - mynychu digwyddiadau ymarfer da CLIL, CLILC ac Archwilio Cymru a defnyddio ein rhwydweithiau i ofyn cwestiynau a cheisio syniadau newydd.<br><br>**Gweithlu**<br><br>Mae'r Cyngor yn rhwydweithio a meincnodi arferion da mewn perthynas ag AD drwy grwpiau rhwydweithio Gogledd Cymru, Cymru Gyfan a'r DU.  Mae aelodau o'r tîm hefyd yn rhan o grŵp datblygu meincnodi AD Cymru gyfan sy'n datblygu ystadegau meincnodi AD newydd. Mae cyfres newydd o Ddangosyddion Perfformiad wedi'u cytuno ar draws Cymru a bydd y data ar gael drwy Data Cymru'n flynyddol fel rhan o ddangosfyrddau eu gwefan. Ar adeg llunio'r diweddariad hwn, roedd gwybodaeth meincnodi diwedd y flwyddyn yn cael ei gadarnhau gan Data Cymru. |

## 10. Craciau yn y Sylfeini – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Datblygu cynlluniau gweithredu lleol sy'n mynegi gweledigaeth glir ar gyfer rheoli adeiladu er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer rhoi gofynion y Ddeddf ar waith. Dylai'r cynlluniau gynnwys:<br>- Asesiadau risg.<br>- rolau allweddol rheoli adeiladu i sicrhau adeiladau diogel, amcanion lles a chorfforaethol.<br>- sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer rheoli adeiladau ar gyfer cyfrifoldebau statudol.<br>- Cynnwys mesuryddion canlyniadau sy'n canolbwyntio ar wasanaethau rheoli adeiladu.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae gan Rheoli Adeiladu gynlluniau gwasanaeth a chofrestrau risg sy'n cyd-fynd â phenawdau amrywiol y Cynllun Corfforaethol a'r Asesiad Lles ac maent yn cael eu monitro ddwywaith y flwyddyn (busnes fel arfer).<br>Swyddogaeth a diben allweddol rheoli adeiladu a rheoliadau adeiladu yw sicrhau bod adeiladau'n cael eu hadeiladu'n addas i bwrpas (busnes fel arfer).<br>Mae Rheoli Adeiladu'n rhedeg ar sail costau niwtral (busnes fel arfer o fewn yr adnoddau presennol).<br>Ar hyn o bryd rydym yn datblygu ein mesuryddion canlyniadau.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mawrth 2025 i fis Rhagfyr 2025. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Mynd ati ar frys i adolygu ein rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu a sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau. Dylent<br>- Sefydlu amserlen adolygiadau ffioedd rheolaidd.<br>- Diwygio ffioedd i sicrhau y codir tâl am wasanaethau yn unol â'r rheoliadau.<br>- Adrodd ar berfformiad ariannol a chyhoeddi'r wybodaeth honno'n flynyddol yn unol â'r rheoliadau;<br>- Sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant ynglŷn â'r rheoliadau.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae adroddiadau blynyddol yn cael eu cyhoeddi'n unol â chanllawiau CIPFA (busnes fel arfer).<br>Mae cynlluniau hyfforddi wedi'u datblygu ar gyfer holl aelodau'r tîm (wedi'i gwblhau).<br>Mae'r ffioedd yn cael eu hadolygu ac rydym yn bwriadu cyflwyno adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2025, bydd hyn yn cynnwys amserlen o adolygiadau ffioedd rheolaidd. Oherwydd prinder staff.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Ebrill 2025 i fis Rhagfyr 2025. |

## 11. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Mwy nag ymarfer blwch ticio (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Adolygu ein dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r canllawiau manwl sydd ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ar y Tudalennau Arferion.<br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mawrth 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Dechreuodd Rheolwr newydd Conwy Gynhwysol yn y swydd ym mis Ionawr 2025. Gan weithio gyda Grŵp Llywio Conwy Gynhwysol byddant yn adolygu a symleiddio ymagwedd y Cyngor o ran Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, gyda chanllawiau. Ein huchelgais yw ei ddigideiddio.<br>Diwygio'r dyddiad disgwyliedig o fis Mawrth 2025 i fis Mawrth 2026. |

**12. Adolygu Digartrefedd (Adroddiad Cenedlaethol)**

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Creu ffeithlen yn amlinellu beth y gall cleient ei ddisgwyl gan y gwasanaeth, gan sicrhau bod fformat Hawdd ei Ddarllen ar gael.<br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ffeithlen yn ei lle yn darparu gwybodaeth i gleientiaid o ran beth y gallant ei ddisgwyl o Lety Dros Dro.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Sicrhau bod cynllun i ddarparu hyfforddiant rheolaidd ar gydraddoldeb a hawliau dynol i'r holl rai sy'n gwneud penderfyniadau a swyddogion adolygu.<br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yr holl swyddogion Tai i gwblhau modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb corfforaethol. Monitro'r niferoedd sydd wedi cwblhau yn fisol.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Creu perthnasoedd gwaith gyda budd-ddeiliaid / asiantaethau partner, megis 'Daliwch Sylw', i gynorthwyo i wella gwasanaethau.<br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mawrth 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mawrth 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cynnydd da gyda phartneriaethau mewnol ac allanol e.e. Gweithgor Gofal Cymdeithasol a Thai yn weithredol / Stori a'r Gwasanaeth Prawf wedi'u hymgorffori yn y tîm a Rheolwr Partneriaethau wedi'u penodi. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac yn fusnes fel arfer.<br>Argymell cymeradwyo. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Ffurfio fframwaith, mewn cydweithrediad â grwpiau eirioli, sy'n grymuso swyddogion i wneud penderfyniadau / gweithredu, yn enwedig o safbwynt hawliau dynol a chydraddoldeb a lleihau adolygiadau di-angen, heb effeithio ar hawl statudol y cleient i adolygiad.<br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Hydref 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae adolygiad y Gwasanaeth Digartrefedd ar y gweill. Fel rhan o'r adolygiad, rydym yn datblygu adroddiad i dynnu sylw at gryfderau a gwendidau o fewn y gwasanaeth. Mewn ymateb byddwn yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwelliannau gwasanaeth. Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei drin fel rhan o'r adolygiad.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mawrth 2025 i fis Hydref 2025. |

## 13. Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gwerthuso'r prosesau ymgysylltu presennol ac atgyfnerthu rhai meysydd fel bo'r angen.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae hyn ar y gweill fel rhan o waith Arolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mawrth 2025 i fis Rhagfyr 2025. |
| Adolygu fformat yr Adroddiad Blynyddol i gynnwys mwy o werthuso cynnydd y Cyngor ac effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae ein Hadroddiad Hunanasesiad o Berfformiad a'r Cynllun Corfforaethol wedi'u hadolygu'n ddiweddar, gyda Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer y Cynllun Corfforaethol yn cael ei atgyfnerthu'n sylweddol. Bydd ein gwaith ar gyfer yr Arolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid yn cefnogi'r fframwaith hefyd.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mawrth 2025 i fis Rhagfyr 2025. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Datblygu egwyddorion allweddol ar gyfer llunio adroddiadau perfformiad gyda phwyslais ar werthuso canlyniadau a chynnwys y rhain yn y fframwaith rheoli perfformiad.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Byddwn yn ystyried rhai egwyddorion allweddol ar gyfer adrodd da fel rhan o'n diweddariad sydd i ddod ar gyfer canllawiau'r Fframwaith Rheoli Perfformiad.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mawrth 2025 i fis Rhagfyr 2025. |
| Sicrhau ansawdd holl ddatganiadau dull Dangosyddion Perfformiad y Cynllun Corfforaethol i sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth am sut y dilysir y data.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mawrth 2025<br>**Dyddiad Gorffen:** Mawrth 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol wedi'i adolygu'n ddiweddar. Mae gwaith sylweddol wedi'i gyflawni gan y Tîm Gwella a Pherfformiad a rheolwyr busnes gwasanaethau i sicrhau ein bod yn deall sut a ble y ceisir data ar gyfer pob mesurydd. Mae datganiadau methodoleg wedi'u rhoi ar waith lle bo unrhyw amwysedd o ran ffynhonnell y data, neu lle bo anghysondeb yn y data.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Atgoffa gwasanaethau o'r gofyniad i ddilysu'r data y maent yn ei gasglu a dadansoddi i sicrhau cywirdeb.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mawrth 2025<br>**Dyddiad Gorffen:** Mawrth 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Fel rhan o'n gwaith i adolygu ein gwaith adrodd ar gyfer yr Hunanasesiad o Berfformiad a Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol, mae'r Tîm Perfformiad a Gwella wedi atgoffa rheolwyr busnes gwasanaethau o bwysigrwydd dilysu data sy'n cael ei gyflwyno drwy CAMMS. Bydd y Tîm Perfformiad a Gwella hefyd yn cwestiynu data sy'n ymddangos yn anghyson cyn adrodd. Mae adroddiadau'n cael eu gwirio ymhellach gan reolwyr busnes, Penaethiaid Gwasanaeth cyn eu craffu a'u herio ymhellach gan aelodau etholedig.<br>Argymell cymeradwyo. |

## 14. Strategaeth Ddigidol (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cyflwyno cais i Gyngor yr Ifanc i geisio adborth ar ein darpariaethau ar-lein ar hyn o bryd.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Hydref 2024<br>**Dyddiad Gorffen:** Mawrth 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Wedi cysylltu â Chyngor yr Ifanc i geisio adborth ar ein strategaeth ddigidol a'n cynnig digidol yn benodol e.e. y wefan, ymgysylltiad ac ati. Grŵp Cynhwysiant Digidol CLIL yn hysbysu sut yr ydym yn dylunio a gweithredu datrysiadau digidol. Mae strategaethau ac unrhyw ardaloedd o'r wefan yn cynnig cyfle i gynnig adborth ar-lein i hysbysu blaenoriaethau dylunio neu strategol. Byddwn yn adolygu adborth o fewn y ffrwd waith ddigidol ac yn diwygio strategaethau / blaenoriaethau digidol lle bo'n briodol a rhesymol.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Ceisio adborth pellach gan grwpiau allweddol eraill o ran y Strategaeth Ddigidol a / neu wasanaethau ar-lein.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Hydref 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Hydref 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae strategaethau ac unrhyw ardaloedd o'n gwefan yn cynnig cyfle i gynnig adborth ar-lein i hysbysu blaenoriaethau dylunio neu strategol. Byddwn yn adolygu adborth o fewn y ffrwd waith ddigidol ac yn diwygio y strategaeth / blaenoriaethau digidol lle bo'n briodol a rhesymol.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Ceisio cyllid amgen lle nad oes cyllid ar hyn o bryd i gefnogi'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Ddigidol.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2027<br>**Dyddiad gorffen:** Mai 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cefnogir yr ymagwedd hon drwy fabwysiadu ffrwd waith ddigidol o fewn y Strategaeth Gwytnwch Corfforaethol a'r Bwrdd.<br>Argymell cymeradwyo. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Byddwn yn sicrhau bod swyddogion sy'n gweithio ar brosiectau trawsnewid yn sicrhau bod trefniadau monitro'n eglur o'r cychwyn cyntaf i fesur llwyddiant y gwaith a gyflawnir neu fel arall.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2027<br>**Dyddiad gorffen:** Mai 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Fe fydd hyn yn cael ei weithredu'n barhaus ar gyfer pob prosiect trawsnewid. Mae swyddogion arweiniol y gwasanaeth TGThD yn ymwybodol o'r gofyniad.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Cynnal yr ymagweddau presennol o ran cydweithio ac ystyried lle y ceir cyfleoedd pellach (ynghyd â chymorth ariannol) i gydweithio ar feysydd o waith.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Gwaith gyda Phrif Swyddog Digidol CLILC yn parhau gyda'r nod o rannu arbenigedd, gwybodaeth a chostau lle bo'n briodol ar gyfer datrysiadau TG digidol. Wedi cyflwyno rhai cynigion Triple Value Impact i CLILC a / neu grwpiau rhanbarthol neu genedlaethol eraill megis Maethu. Mae pennu gwerth yn dibynnu ar wybodaeth gywir gan ddarparwyr neu gymharu â lefelau gwariant /effeithlonrwydd blaenorol. Busnes fel arfer yw hyn.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Cynnal ymarfer i wella arferion gwerthuso buddion gwaith ar y cyd (neu fel arall) sydd eisoes wedi'u cyflawni ac adolygu'r strategaeth ddigidol i ddeall ble y ceir cyfleoedd pellach i gydweithio.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mawrth 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cynnig i adolygu hyn cyn 31 Mawrth 2026.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Rhagfyr 2024 i fis Mawrth 2026. |

## 15. [Datblygu Cynaliadwy – Gwneud y Defnydd Gorau o Dir Llwyd ac Adeiladau Gwag (Adroddiad Cenedlaethol)]

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Datblygu Strategaeth Fuddsoddi, a fydd yn ceisio hyrwyddo'r ardal, ymagwedd canol y dref yn gyntaf, a PDL / Adeiladau Gwag.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Chwefror 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Nid yw'r Strategaeth Fuddsoddi wedi'i datblygu, gan na allwn nodi cyllid allanol i ymgymryd â'r strategaeth ac nid oes gennym gyllid mewnol. Er nad yw'r strategaeth fuddsoddi wedi'i datblygu'n llawn, mae Cronfa Ddata Tir Cyflogaeth wedi'i gyflwyno i'r cyhoedd sy'n nodi safleoedd yn seiliedig ar eu haddasrwydd a'u hargaeledd. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddyraniadau, eiddo gwag a thir i gefnogi buddsoddwyr. Mae'r gronfa ddata eisoes wedi'i defnyddio ar gyfer busnesau posibl sy'n ystyried symud o fewn neu o du allan i Gonwy.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Chwefror 2025 i fis Chwefror 2026. |
| Cefnogi gwaith asedau ehangach yn y gymuned i ddatblygu asesiad o safleoedd y gellir eu cyflawni.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Medi 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn i'w gwblhau ym mis Medi 2025.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Chwefror 2025 i fis Medi 2025. |
| Adolygu a diweddaru Pecyn Gwaith Cynllun Bro gan gyflwyno Canllawiau Cynllunio Atodol Cydymffurfiaeth Cynllun Bro.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Hydref 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r holl waith yn destun cymeradwyaeth wleidyddol ym mis Medi 2025. Mae canllawiau Asesiad Cydymffurfiaeth wedi'u cwblhau yn dilyn digwyddiad Budd-ddeiliaid Cymorth Cynllunio Cymru. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Sicrhau y defnyddir Cynlluniau Bro, Cynlluniau Creu Lleoedd, a Chynlluniau Cymunedol / Adfywio i flaenoriaethu ac fel tystiolaeth ar gyfer cyllid adfywio.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Hydref 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mai 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae gan 8 prif dref Conwy - Abergele a Phensarn; Towyn a Bae Cinmel; Bae Colwyn (yn cynnwys Mochdre, Llandrillo-yn-Rhos a Hen Golwyn); Conwy (yn cynnwys Deganwy a Chyffordd Llandudno); Llanrwst; Llandudno (yn cynnwys Craig y Don, Bae Penrhyn a Llandrillo-yn-Rhos), Llanfairfechan; Penmaenmawr Gynlluniau Bro, Cynlluniau Cicdanio neu Gynlluniau Cymunedol ar waith. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ac fe gyfeirir atynt i flaenoriaethu prosiectau adfywio, fel sy'n ofynnol gan brif gyllidwyr. Ond, adnoddau hynod gyfyngedig sydd gan yr Awdurdod Lleol, gan olygu ei bod yn heriol rhoi sylw dyledus i bob ardal. Rydym yn canolbwyntio ar ddarpariaeth drwy bartneriaethau i ymestyn cyrhaeddiad a buddion, sy'n cynnwys cefnogi gweithrediad y cynlluniau hyn. Bydd y canllawiau cydymffurfiaeth uchod yn cefnogi'r broses ymhellach yn ogystal â'r adolygiad o'r Pecyn Gwaith Cynlluniau Bro. Mae'r cam gweithredu yn awr yn rhan o fusnes fel arfer parhaus.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Ystyried ymagweddau uchelgeisiol ar gyfer adfywio fel rhan o'n Strategaeth Fuddsoddi.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Chwefror 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Nid yw'r Strategaeth Fuddsoddi wedi'i datblygu, gan na allwn nodi cyllid allanol i ymgymryd â'r strategaeth ac nid oes cyllid mewnol.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Chwefror 2025 i fis Chwefror 2026. |

## 16. Menter Gymdeithasol (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Adolygu a diweddaru'r weledigaeth yn y Siarter Trydydd Sector fel ei bod yn adlewyrchu gweledigaeth yr awdurdod cyfan.<br>**Dyddiad dechrau:** Mawrth 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Medi 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae perchnogaeth y cam gweithredu'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mawrth 2025 i fis Medi 2025. |
| Ymgymryd ag ymarfer mapio i ddarparu asesiad gwaelodlin yn cynnwys yr holl elfennau perthnasol o fewn y rhestr wirio.<br>**Dyddiad dechrau:** Mawrth 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Nid oes gennym gapasiti ar hyn o bryd oherwydd gweithrediad y gofrestr contractau newydd a gweithrediad PA2023 sydd i ddod.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Rhagfyr 2024 i fis Rhagfyr 2025. |
| Datblygu'r Gofrestr Contractau i nodi sefydliadau trydydd sector yr ydym yn eu hariannu.<br>**Dyddiad dechrau:** Awst 2023<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Awst 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Bydd y gofrestr contractau newydd yn ein caniatáu i wneud hyn. Mae hyn ar y gweill - cafodd ei ohirio fel rhan o Gam 2 y gweithrediad ac rydym wedi wynebu problemau pellach yn ddiweddar wrth brofi. Rydym yn gobeithio y bydd y system newydd yn weithredol erbyn diwedd Gorffennaf 2025.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mawrth 2025 i fis Gorffennaf 2025. |
| Datblygu proses Rheolau'r Weithdrefn Gontractau i alluogi Mentrau Bach a Chanolig i ddarparu dyfynbris ar gyfer tendr yn hytrach na dogfen dendr gynhwysfawr.<br>**Dyddiad dechrau:** Ebrill 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Gorffennaf 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Bydd diwygio'r trothwyon yn Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn caniatáu darparu dyfynbrisiau ar gyfer caffael o werth uwch. Gobeithio bydd Rheolau newydd y Weithdrefn Gontractau wedi'u cytuno a'u cymeradwyo erbyn diwedd yr haf. Mae gennym ddyletswydd hefyd o dan y Ddeddf Gaffael newydd i ystyried rhwystrau y gall Mentrau Bach a Chanolig eu hwynebu wrth gymryd rhan mewn ymarferion caffael cyhoeddus, ac ystyried a ellir lleihau neu ddiddymu'r rhwystrau hyn. Darperir ar gyfer y ddyletswydd yn Rheolau newydd y Weithdrefn Gontractau. |

## 17. Gyda'n Gilydd Gallwn - Gwytnwch a Hunan-ddibyniaeth Cymunedau (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Adolygu ein Hasesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn dilyn adolygiad o'r cynllun corfforaethol.<br>**Dyddiad dechrau:** Ionawr 2025<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mawrth 2025<br>**Dyddiad Gorffen:** Chwefror 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyflwynwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb newydd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2025.<br>Argymell cymeradwyo. |

## 18. Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cynnwys dadansoddiad o'r sefyllfa strategol yn y Strategaeth Wastraff.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Medi 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mai 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Drafftiwyd Strategaeth Wastraff ar gyfer Conwy gyda chefnogaeth gan Bartneriaethau Lleol a'i chyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Ebrill. Cafodd ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mai.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Cynnwys dadansoddiad o'r 5 ffordd o weithio ac ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn yr adroddiad democrataidd ar gyfer y Strategaeth Wastraff.<br>Bydd mater cyfranogiad dinasyddion a gwersi a ddysgwyd yn cael ei godi yn adolygiad perfformiad gwasanaeth AFfCh wrth drafod perfformiad Gwastraff.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Medi 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r 5 ffordd o weithio ac ystyriaeth o'r nodau lles wedi'u cynnwys yn yr adroddiad democrataidd ar gyfer y Strategaeth Wastraff, sy'n cael ei chyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle yn yr Haf. Cyflwynwyd y Strategaeth i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Ebrill a'i chymeradwyo gan y Cabinet ar 13 Mai. Bydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn awr a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mawrth 2025 i fis Medi 2025. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Bydd yr adroddiad democrataidd ar gyfer y Strategaeth Wastraff yn ystyried gweledigaeth sy'n fwy hirdymor.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Medi 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mai 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Drafftiwyd Strategaeth Wastraff ar gyfer Conwy gyda chefnogaeth gan Bartneriaethau Lleol a'i chyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Ebrill. Cafodd ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mai.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Rhannu dadansoddiad o ddata tipio anghyfreithlon dros y blynyddoedd diwethaf gyda swyddogion o'r Gwasanaethau Rheoleiddio (gorfodi).<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mehefin 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Tachwedd 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cwblhawyd y dadansoddiad a'i anfon at y Gwasanaethau Rheoleiddio ym mis Tachwedd 2024.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Darparu rhagor o fanylion o'r gwaith y bydd AFfCh a'r Gwasanaethau Rheoleiddio yn ei gyflawni i atal tipio anghyfreithlon.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mehefin 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mehefin 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Gwasanaethau Rheoleiddio yn cyflwyno camau gorfodi pan fydd trosedd wedi'i chyflawni a bod digon o dystiolaeth i erlyn. Hefyd, mae cais llwyddiannus i Gronfa Ffyniant a Rennir y DU wedi ein caniatáu i brynu camerâu symudol fel rhan o brosiect Mannau Agored Gwell, y gellir eu defnyddio gan ddefnyddio gwybodaeth mewn ardaloedd problemus fel teclyn atal a gorfodi i nodi troseddwyr.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Cyflwyno adroddiad blynyddol ar berfformiad ailgylchu a gwastraff i'r Aelodau.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Medi 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Bydd yr Adroddiad Perfformiad Gwastraff cyntaf yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Medi 2025.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mehefin 2025 i fis Medi 2025. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Ystyried ein trefniadau ar gyfer amnewid cerbydau, offer a pheiriannau ochr yn ochr â phwysau a blaenoriaethau eraill yn y gwasanaeth.<br><br>Byddwn yn parhau i asesu cyfleoedd cyllid grant wrth iddynt ddod i'r amlwg.<br><br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2024<br><br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mawrth 2025<br><br>**Dyddiad gorffen:** Mawrth 2025 | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi ystyried trefniadau ar gyfer ein rhaglen amnewid cerbydau, wedi alinio gyda'n proses gyllido cyfalaf, gyda manylion cerbydau'n cael eu paratoi ac archebion yn cael eu cyflwyno fel bo'n briodol. Yn dilyn cadarnhad o gyllid cyfalaf ar gyfer y rhaglen amnewid, mae archebion wedi'u cyflwyno ar gyfer cerbydau gwastraff ac ailgylchu newydd, gydag archebion yn ymestyn at fis Ebrill 2026 ar hyn o bryd. Oherwydd natur arbenigol fflyd y Cyngor, pan fydd archeb yn cael ei chyflwyno gall gymryd sawl mis cyn derbyn y cerbyd newydd.<br><br>Argymell cymeradwyo. |

**19. Cynaliadwyedd Ariannol (Adroddiad Lleol)**

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithredu'r cynllun gwytnwch a thrawsnewid.<br><br>**Dyddiad dechrau:** Mawrth 2024<br><br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2026 | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Mae gwaith i weithredu'r cynllun gwytnwch yn parhau i fynd rhagddo. Bydd Strategaeth Wytnwch yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau ar ddiwedd y gwanwyn / dechrau'r haf, yn amlinellu'r gwaith cyfredol ac sydd wedi'i gynllunio. Rydym yn parhau i ymgysylltu gyda CIPFA i herio ac adolygu meysydd lle bo pwysau a chwmpas i gyflawni arbedion pellach. |

## 20. Llywodraethu Awdurdodau Parc Cenedlaethol (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Trafod buddion adrodd i'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn.<br>Trafod y fframwaith sy'n cael ei ddatblygu gyda Chyngor Sir Powys a phennu a fyddai o fudd i Gonwy.<br>**Dyddiad dechrau:** Chwefror 2025<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Mawrth 2025<br>**Dyddiad Gorffen:** Mawrth 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Bydd cynrychiolwyr yn adrodd i'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn yn awr. Trafodwyd y fframwaith sy'n cael ei ddatblygu gyda Chyngor Sir Powys. Rydym yn cydlynu amserlenni cyfarfodydd ac wedi datblygu cylch adborth rhwng Aelodau'r Parc Cenedlaethol a Swyddogion y Cyngor i drafod cyfleoedd, heriau a materion sy'n codi. Rydym yn ymgymryd ag adolygiad o Raglen Hyfforddiant yr Aelodau i nodi meysydd sy'n cyd-fynd.<br>Argymell cymeradwyo. |

## 21. Gwasanaethau Addysg (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithredu dogfen cynllun tîm cyson.<br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Tachwedd 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae ymagwedd gyson ar gyfer cynllunio gwasanaeth a chynllunio tîm wedi'i weithredu a'i rannu gydag Estyn. Mae hyn yn dangos ffocws ar feini prawf llwyddiant penodol a sicrhau bod modd mesur camau gweithredu a chanolbwyntio ar eu heffaith.<br>Argymell cymeradwyo. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithredu templed cynllun gwasanaeth newydd sydd â chysylltiadau clir gyda chynlluniau timau unigol gyda chamau CAMPUS a meini prawf llwyddiant penodol a monitro / gwerthuso.<br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2024<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Tachwedd 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae templed cynllun gwasanaeth newydd wedi'i weithredu o fis Ebrill 2024 yn nodi camau CAMPUS, ac maent oll yn cynnwys meini prawf llwyddiant penodol. Mae cynlluniau tîm meysydd gwasanaeth wedi'u gweithredu gan ddefnyddio'r un ymagwedd er mwyn sicrhau bod cysondeb ar draws yr holl feysydd gwasanaeth o fewn Addysg. Mae'r dogfennau'n dangos cysylltiad clir gyda chanlyniadau a chamau gweithredu'r cynllun gwasanaeth, a chamau gweithredu'r tîm gyda meini prawf llwyddiant penodol ar y dogfennau diweddaru er mwyn i swyddogion fesur llwyddiant yn eu herbyn wrth ddarparu diweddariad ddwywaith y flwyddyn.<br>Argymell cymeradwyo. |

## 22. Comisiynu Lleoliadau Cartref Gofal Pobl Hŷn (Adroddiad Lleol / Rhanbarthol)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Mae angen i Gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau defnydd cyson o gytundebau cyn-lleoli ar draws y rhanbarth.<br>**Dyddiad dechrau:** Chwefror 2022<br>**Dyddiad Disgwyliedig:** Rhagfyr 2025 | Coch<br>Targed heb ei fodloni | Nid yw'r Cytundeb Cyn-Lleoli wedi'i weithredu ac mae wedi'i ohirio ymhellach oherwydd materion a heriau cyfreithiol. Mae trafodaethau rhwng cynrychiolwyr cyfreithiol y gwahanol sefydliadau wedi parhau am dair blynedd a gwneir cynnydd yn araf. Dim ond nifer fechan o faterion sy'n weddill i'w datrys. Disgwylir Cytundeb Cyn-lleoli yn ddiweddarach yn 2025.<br>Mae'r oedi yn golygu bod y cytundeb gyda'n holl gartrefi gofal wedi dod i ben ac rydym yn gweithredu dan 'gytundeb ymhlyg'. Hyd yma, mae'r Darparwyr Gofal yng Nghonwy yn parhau i gyflawni'r cytundeb blaenorol ac nid yw wedi cael unrhyw effaith ar breswylwyr Conwy. Ond mae'n parhau i beri risg ac yn golygu y byddem o bosib yn agored i risg pe byddai anghydfod yn codi.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mehefin 2025 i fis Rhagfyr 2025. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Mae angen i Gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr atgyfnerthu eu trefniadau llywodraethu partneriaeth i sicrhau atebolrwydd priodol a chraffu effeithiol.<br>**Dyddiad dechrau:** Chwefror 2022<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Tachwedd 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Daeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'r casgliad mai cyfrifoldeb pob partner yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol yn eu lle. Mae Datganiad Tir Cyffredin wedi'i gynhyrchu gyda Chonwy a Betsi Cadwaladr fel rhan o broses y cynllun datblygu newydd ac wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor. Mae cynnydd hefyd yn cael ei gyflawni drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Bwrdd Iechyd i gyflawni perthynas gynhyrchiol a chydweithredol. Mae'r gwaith yn parhau a bydd yn cael ei fonitro a'i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn fel rhan o Risg 10 yn ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol "*Y risg nad oes gan ein partneriaid flaenoriaethau ac ymrwymiadau sy'n alinio, neu nad oes ganddynt yr adnoddau ar gael i wneud penderfyniadau effeithiol a chefnogi gweithrediad llwyddiannus y canlyniadau a rennir.*"<br>Argymell cymeradwyo. |

**23. Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (Adroddiad Lleol)**

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cynnal dadansoddiad manwl o anghenion er mwyn rhoi gwybod i'r bwrdd a'r bartneriaeth am y gwasanaethau y mae angen eu darparu yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Medi 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mai 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cynhaliwyd Adolygiad Partneriaeth gyda phob asiantaeth / partner statudol. Nodwyd meysydd o angen a gwelliant a'u datblygu gan y Grŵp Rheoli Gweithredol gyda throsolwg gan Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae adroddiadau perfformiad ac astudiaethau achos yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Rheoli i sicrhau trosolwg parhaus o faterion a phryderon er mwyn sicrhau y ceir ymateb prydlon i faterion / anghenion. Mae hwn bellach wedi'i gwblhau.<br>Argymell cymeradwyo. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Sicrhau bod cytundebau rhannu gwybodaeth effeithiol gyda'r ysgol rithwir, er mwyn i'r plant gael mynediad at y gwasanaeth yn ddi-oed.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Medi 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mai 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Nid oes Penaethiaid Ysgolion Rhithwir yng Nghonwy na Sir Ddinbych. Mae llwybr a chanllawiau newydd wedi'u cytuno, ac maent wedi'u rhannu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli a Thîm y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ac o fewn sefydliadau addysg yn y ddwy sir. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau ac mae'r prosesau wedi'u hymgorffori a'u hadolygu'n rheolaidd fel rhan o drosolwg gweithredol y Bwrdd Rheoli, ac fel rhan o raglen waith a threfniadau trosolwg y swydd newydd ar gyfer Rheolwr Gweithredol ar gyfer partneriaethau o fewn y Gwasanaeth. Mae hwn bellach wedi'i gwblhau.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Monitro mynediad plant at wasanaethau partneriaeth a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau mewn modd amserol.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Medi 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mai 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r broses o fonitro mynediad at Wasanaethau Partneriaeth wedi'i hymgorffori o fewn swyddogaeth lywodraethu ac arweinyddiaeth Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae ffurflen ddiweddaru partneriaeth wedi'i chytuno a'i rhannu gyda'r holl bartneriaid ac fe adroddir arnynt yn holl Gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli. Mae datblygiadau wedi'u nodi gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae adroddiadau perfformiad ac astudiaethau achos yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Rheoli i sicrhau trosolwg parhaus o faterion a phryderon er mwyn sicrhau y ceir ymateb prydlon i faterion / anghenion.<br>Argymell cymeradwyo. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Sicrhau bod eu gwasanaethau'n cyfrannu'n effeithiol at gadw plant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ddiogel ac yn iach drwy ddarparu cynrychiolaeth ar y panel gwneud penderfyniadau y tu allan i'r llys, gan hyfforddi gweithwyr cymdeithasol i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau pan fyddant yn cydweithio ar achosion gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a chyfrannu at asesu a chynllunio effeithiol ar y cyd.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Medi 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mai 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Protocol newydd wedi'i gytuno. Mae 'diwrnod angori' ar y cyd ar gyfer staff Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaeth Amddiffyn Ieuenctid wedi'i gyflwyno i feithrin perthnasoedd personol. Gwaith yn cael ei gyflawni i ddatblygu'r Grŵp Rheoli Gweithredol. Olrhain cyfleoedd ar y cyd i gydweithio'n anffurfiol drwy'r Grŵp Rheoli Gweithredol. Cysylltiadau gyda'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol ar gyfer Conwy ac Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych wedi'u sefydlu, a chytundeb mewn egwyddor i ariannu rôl arweiniol Cam-fanteisio Troseddol ar Blant Conwy a Sir Ddinbych. Mae hwn bellach wedi'i gwblhau.<br>Argymell cymeradwyo. |

**24. Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant (Adroddiad Cenedlaethol)**

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Datblygu a chymeradwyo llythyr canlyniad Awdurdod Lleol.<br>Llythyr yn cael ei greu yn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) hefyd i sicrhau y gall y System Gwybodaeth Rheoli (MIS) gasglu data.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Hydref 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Mai 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae hwn bellach wedi'i gwblhau.<br>Argymell cymeradwyo. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Mae angen sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn fwy eglur ar gyfer plant a phobl ifanc gan gynnwys pontio o'r gwasanaethau pobl ifanc i wasanaethau oedolion mewn achos o risg cynyddol o niwed sylweddol.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Medi 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Mai 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae hyn wedi'i gwblhau yn awr ac wedi ei ymgorffori mewn ymarfer.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Ffigyrau o ran nifer y staff rheng flaen sy'n gallu darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Hydref 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Hydref 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae 16 aelod o staff sy'n gallu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth (allan o 45). Mae ffurflenni atgyfeirio yn ddwyieithog ac mae'r cofnodion ar gael yn Gymraeg. Cam gweithredu wedi ei gwblhau.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Adolygu hyfforddiant amlasiantaeth a chynnwys asesiad risg.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Mawrth 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mawrth 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r hyfforddiant cychwynnol wedi'i gwblhau a byddwn yn symud ymlaen i fusnes fel arfer yn awr.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Mae angen sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Amlasiantaeth penodol i ystyried y cyfrifoldebau ar y cyd o ran cadeirio a chymryd cofnodion yn y grŵp craidd.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Mehefin 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r grŵp tasg a gorffen wedi'i sefydlu ac yn adolygu cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd strategol. Cytunodd y grŵp i godi'r mater gyda phartneriaid yn y Fforwm Diogelu Amlasiantaeth (Rhagfyr 2025), sydd wedi gweld cynnydd o ran presenoldeb.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Mawrth 2025 i fis Mehefin 2025. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Sicrhau ymagwedd genedlaethol gyson o ran hyfforddiant a datblygu.<br>Adolygu a diweddaru hyfforddiant diogelu amlasiantaeth 2 ddiwrnod.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Mawrth 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mawrth 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r deunydd hyfforddi wedi'i uwchlwytho i gynnwys yr elfennau newydd, a disgwylir hyfforddiant amlasiantaeth newydd ym mis Mehefin 2025. Cam gweithredu wedi ei gwblhau.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Sicrhau cysondeb ar draws y gwasanaeth o ran asesiadau risg.<br>Byddwn yn ailystyried system WCCIS o ran ble y cofnodir y cynlluniau amddiffyn gofal a chefnogaeth.<br>**Dyddiad dechrau:** Chwefror 2025<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Mawrth 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae templed diwygiedig wedi'i weithredu i nodi safbwyntiau'r plentyn ar eu profiad bywyd dyddiol ac unrhyw welliannau a brofwyd o dan y CPR. Mae adroddiad risg ac asesiad risg newydd wedi'u gweithredu. Cam gweithredu wedi ei gwblhau.<br>Argymell cymeradwyo. |
| Sicrhau bod aelodau perthnasol o'r teulu, e.e. tadau, teulu estynedig yn cael gwahoddiad fel bo'n briodol.<br>Ystyried cyflwyno gwelliannau o ran y ddogfen asesiadau.<br>**Dyddiad dechrau:** Chwefror 2025<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Mawrth 2025<br>**Dyddiad gorffen:** Mawrth 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r rhestr wahodd wedi'i chwblhau a'i gweithredu, mae dogfennau wedi'u diwygio ac yn cael eu defnyddio.<br>Argymell cymeradwyo. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Adolygu RASM a chynllun rheoli risg.<br>**Dyddiad dechrau:** Chwefror 2025<br>**Dyddiad disgwyliedig:** Rhagfyr 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2024 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r prosesau newydd wedi'u cytuno.<br>Argymell cymeradwyo. |

**25. Gofal Brys ac mewn Argyfwng - Llif allan o'r ysbyty (Adroddiad Rhanbarthol)**

Adroddwyd ar y cynnydd i Bwyllgor Craffu Cyngor Sir Ddinbych ar 3 Ebrill 2025. Mae modd gweld yr adroddiad llawn a'r cynllun gweithredu a ddiweddarwyd drwy glicio ar y ddolen gyswllt uchod.